# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Denu gwirfoddolwyr sy’n siarad Cymraeg

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Creu Cyfleoedd i Siaradwyr Cymraeg
3. Cyrraedd Siaradwyr Cymraeg
4. Cyfleu Cyfleoedd i Wirfoddoli drwy Gyfrwng y Gymraeg
5. Recriwtio
6. Gwybodaeth Bellach


Mae’r daflen wybodaeth hon yn cynnig syniadau ymarferol ar sut i ddenu gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith i’ch mudiad.

## Cyflwyniad

Mae Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gyda tharged o 1 miliwn erbyn 2050.

Drwy ddenu mwy o wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith, gall mudiadau chwarae eu rhan yn y strategaeth genedlaethol hon drwy wneud mwy o ddefnydd o’r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, cymdeithasol a thrwy gynyddu’r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog.




Llun: Taith Iaith Gwaith - Sainsbury’s Caerdydd

Working Word wedi’i drwyddedu o dan CC BY-ND 2.0

Cefnogi Trydydd Sector Cymru Third Sector Support Wales

I ddenu gwirfoddolwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhaid:

- Creu cyfleoedd sy'n deniadol
- Cyfleu'r rhain yn effeithiol, i'r bobl gywir

I gael gwybodaeth am sut y gall gwirfoddolwyr sy'n defnyddio'r wirfoddolwyr helpu eich mudiad i gael gwasanaethau ac ethos mwy Cymraeg, gweler y Daflen Wybodaeth:
**4.27 Hyrwyddo'r Gymraeg drwy wirfoddoli**

## Creu Cyfleoedd i Siaradwyr Cymraeg

Hysbysebwch y ffaith eich bod yn awyddus i recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg. Nodwch yn eglur pa mor rhugl yr hoffech iddynt fod ac a oes angen sgiliau cyfathrebu llafar a/neu ysgrifenedig.

Er enghraifft, a ydych chi'n chwilio am rywun i ddatblygu perthynas â chleientiaid drwy gyfrwng y Gymraeg, neu rywun sy'n gallu ymdrin â gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg? Bydd sgiliau, hyder ac awydd gwirfoddolwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn amrywio'n fawr.

**Cofiwch**

Mae cyfieithu'n sgil arbenigol ac mae'n well gadael gwaith cyfieithu ffurfiol i rai sy'n gymwys i wneud y gwaith ac sy'n cael eu talu i wneud hyn. Gall cynrychioli eich mudiad wrth ddelio â'r cyfryngau fod yn frawychus. Dylid cynnig hyfforddiant i gynrychiolwyr yn ogystal â'u briffio ar yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Efallai na fydd rhai siaradwyr Cymraeg yn ddigon hyderus i wneud hyn. Drwy baratoi a chael sgwrs ymlaen llaw â chynrychiolydd y cyfryngau ni ddylai hyn fod yn broblem, yn enwedig os nad oes disgwyl iddynt wneud mwy nag 'adrodd eu stori'.

Dylech annog siaradwyr Cymraeg i'w siarad Cymraeg wrth wirfoddoli. Dangoswch fod eich mudiad yn gweld gwerth mewn siarad Cymraeg, er enghraifft drwy gael deunyddiau Cymraeg wrth law ac i'w harddangos a dangos pwy sy'n siaradwyr Cymraeg (**drwy ddefnyddio'r bathodyn** Iaith Gwaith) fel y bydd y cyhoedd, staff a gwirfoddolwyr yn gallu Siarad Cymraeg â nhw o'r dechrau.



Llun: Grŵp o wirfoddolwyr yn gwenu

Bydd hyn yn golygu creu diwylliant lle mae defnyddio Cymraeg a Saesneg yn arferol, wrth gyfathrebu'n ffurfiol ac anffurfiol. Drwy wneud hyn byddwch yn rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg i wella eu sgiliau.

Gall rolau lle gellid defnyddio Cymraeg mwy anffurfiol fod yn gyfle da i ddysgwyr 'roi cynnig arni' ac i ennill hyder. Gellid annog gwirfoddolwyr i ddefnyddio cymaint o Gymraeg ag y gallant mewn digwyddiadau. Gall defnyddio laniard 'Dysgwr' hefyd helpu (gellir eu harchebu am ddim ar wefan Comisiynydd y Gymraeg gyda'r brand Iaith Gwaith).

## Cyrraedd Siaradwyr Cymraeg

Mae gwirfoddoli'n rhan o fywyd cymunedau Cymru lle mae'n draddodiad bod pawb yn helpu ei gilydd ac yn cyfrannu at eu cymunedau. Mae hyn yn digwydd yn aml heb iddo gael ei gydnabod fel 'gwirfoddoli'!

Mae 'gwirfoddoli' yn aml yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n ymwneud â mudiadau a chyrff ffurfiol.

Cymraeg

Llun: logo Iaith Gwaith

Efallai y bydd angen i fudiadau fabwysiadu dull gwahanol a sensitif pan fyddant yn recriwtio gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith.

- Sicrhau bod gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith yn teimlo bod croeso iddynt yn eich mudiad. Gellid gwneud hyn yn amlwg yn eich polisi cyfle cyfartal neu amrywiaeth.
- Byddai llun ddwyieithog i'r mudiad yn dangos ei ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- Bydd darparu gwybodaeth ddwyieithog gan ddefnyddio iaith anffurfiol, gyfeillgar yn dangos ymrwymiad y mudiad i gynnig dewis ieithyddol yn fewnol ac allanol.
- Cysylltwch yn Gymraeg yn gyntaf, er enghraifft drwy rwydweithiau a grwpiau Cymraeg, cylchlythyrau neu gyfryngau cymdeithasol. Rhestrir rhai sianelau posibl yn adran C.

# Cyfleu Cyfleoedd i Wirfoddoli drwy Gyfrwng y Gymraeg

## Gwneud Cysylltiad Personol

Chwiliwch i weld pa fudiadau Cymraeg eu hiaith sy’n gweithio yn eich ardal (gall Menter Iaith leol roi rhestr o gysylltiadau i chi) a gweithiwch gyda nhw i gyrraedd y gymuned Gymraeg ei hiaith, trefnwch gyfarfodydd, arddangosfeydd a gwnewch apêl am wirfoddolwyr.

Er enghraifft, mi allech gysylltu â’r canlynol:

- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Urdd Gobaith Cymru (mae aelwydydd ym mhob rhan o Gymru)
- Capeli ac Eglwysi Cymraeg
- Ysgolion lleol (gan gynnwys Cymdeithasau Rhieni/Athrawon)
- Darparwyr Dysgu Cymraeg
- Merched y Wawr
- Gwawr
- Mentrau Iaith
- Mudiad Ysgolion Meithrin (mae grwpiau ym mhob rhan o Gymru)
- Cynghorau gwirfoddol sirol
- Canolfannau gwirfoddoli lleol
- Corau a chymdeithasau Cymraeg
- Eisteddfodau lleol ac is-bwyllgorau’r Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau cerdd (fel yr Ŵyl Gerdd Dant) sy’n ymweld â’r ardal. Bydd is-bwyllgorau’n cynnwys pobl leol.

## Defnyddio'r Cyfryngau Cymraeg

Er enghraifft:

- Radio Cymru
- Slot Gymraeg yr orsaf radio leol
- Slot Cymraeg mewn papurau newydd lleol
- Papurau Bro – Mae rhestr ohonynt ar wefan Y Lolfa
- Golwg (Cylchgrawn Cymraeg Cenedlaethol)
- Y Cymro (Papur newydd cenedlaethol)
- Yr Herald Gymraeg (bellach yn atodiad yn y Daily Post)
- Rhaglenni S4C fel Prynhawn Da a Heno.
- Lleol.net
- Gwahanol dudalennau Cymraeg ar Facebook a Twitter, fel Radio Beca, Be sy 'mlaen
- Yr Awr Gymraeg – Mae'r Awr Gymraeg ar Twitter bob nos Fercher (#yagym)

## Gwefan Gwirfoddoli Cymru

Mae'r wefan ddwyieithog hon yn hwyluso'r gwaith o recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr. Mae mudiadau'n hysbysebu cyfleoedd i wirfoddoli y gall pobl eu gweld ar eu ffôn, eu cyfrifiadur neu lechen. Gall gwirfoddolwyr gofrestru yn Gymraeg neu Saesneg. Gallant chwilio yn y ddwy iaith o'u dewis, er bod yn rhaid cofio mai dim ond cyfleoedd sydd wedi'u hysbysebu'n ddwyieithog y gellir chwilio amdanynt yn y ddwy iaith. Gall gwirfoddolwyr ddefnyddio'r system i gofnodi eu horiau gwirfoddoli a cheir gwobrau digidol i ddynodi cerrig milltir penodol (50, 100, 200, 500 a 1000 awr).

Dylai cyfleoedd sy'n cynnig y cyfle i siarad Cymraeg gael eu tagio gyda 'Cymraeg' er mwyn gallu dod o hyd iddynt mewn canlyniadau chwilio. Mi fyddai'n fuddiol hefyd i ychwanegu mwy o wybodaeth yn y disgrifiad naratif, fel "Mae'r swydd hon yn gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd/ achlysurol".

**Dolen Allanol**

Gwefan Gwirfoddoli Cymru

## Pethau Eraill i'w Hystyried neu eu Defnyddio

- Cynnwys o leiaf un dudalen ddwyieithog ar eich gwefan, er enghraifft y dudalen flaen
- Mae disgrifiad rôl enghreifftiol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg y gellid ei ddefnyddio fel templed.
- Manteisiwch ar ddigwyddiadau cenedlaethol fel Wythnos y Gwirfoddolwyr (1-7 Mehefin), yr Eisteddfod Genedlaethol (wythnos gyntaf Awst), Sioe Frenhinol Cymru (canol Gorffennaf), Eisteddfod yr Urdd (wythnos y Sulgwyn), Diwrnod Rhyngwladol y Gwirfoddolwyr (5 Rhagfyr) a threfnwch weithgarwch gweledol a fydd yn tynnu sylw.
- Defnyddiwch ofod cyhoeddus yn y gymuned i hysbysebu cyfleoedd i wirfoddoli
  e.e. llyfrgelloedd, ysgolion, meddygfeydd, siopau papur newydd, a chanolfannau gwirfoddoli.
- Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol i bostio / trydar yn Gymraeg a Saesneg.
- Ystyriwch bostio clipiau fideo ar-lein sy'n dangos profiad gwirfoddolwr cyfredol i hyrwyddo gwirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg



## Recriwtio

- Dylai recriwtio a dethol gwirfoddolwyr Cymraeg neu Saesneg eu hiaith ddilyn canllawiau cyfle cyfartal.
- Ceisiwch sicrhau bod gweithiwr cymorth sy’n siarad Cymraeg ar gael i helpu gwirfoddolwyr os bydd angen.
- Mae gwirfoddoli’n fater o ddewis a dylai gwirfoddolwyr gael yr amser a’r cyfle i ystyried a ydynt am ymgymryd â’r tasgau a gynigir iddynt. Ni ddylent deimlo unrhyw bwysau i dderbyn tasgau os ydynt yn teimlo eu bod yn amhriodol.
- Dylai mudiadau ymdrechu i ddarparu cyfnod cynefino a chyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg os oes angen.
- Efallai y bydd angen hyfforddiant ar wirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith i’w galluogi i gyflawni eu gweithgarwch drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, i ddysgu geirfa neu sgiliau ysgrifennu arbenigol.

## Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor ar arfer da, recriwtio a chynorthwyo gwirfoddolwyr, cysylltwch â'ch canolfan wirfoddoli leol neu'ch cyngor gwirfoddol sirol.

### Mentrau Iaith

**Mentrau Iaith Cymru**
http://www.mentrauiaith.cymru/

### Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg

**Comisiynydd y Gymraeg**
cyg-wlc.cymru

### Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

**Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr**
https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard

Mae'r safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn ei gwneud yn ofynnol i fudiad fod yn agored i gynnwys gwirfoddolwyr o gefndiroedd a galluoedd amrywiol, a darparu'r adnoddau angenrheidiol (Dangosydd 3.1)

### Taflenni gwybodaeth ychwanegol

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**

4.27 Hyrwyddo'r Gymraeg drwy wirfoddoli

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am rhgor o wybodaeth cysylltwch â
**https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.